# Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

### Cofnodion o'r cyfarfod Panel a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2014
### Glyder Fawr, Caernarfon

**Presennol:**

**Cyngor Gwynedd**
Cyng John Pughe Roberts
Cyng Gethin Glyn Williams
Cyng John Wyn Williams
Cyng Dafydd Meurig (eilydd)

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng J. Arwel Roberts
Cyng Lewis Davies
Cyng Kenneth Hughes

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio & Amgylcheddol (CG) |
| Nia Davies | UPCC – Rheolwr |
| Eirian Harris | UPCC - Cynorthwyydd Cynllunio Cefnogol |

**Ymddiheuriadau:**
Cyng Ann Griffith (CSYM)
Cyng Victor Hughes (CSYM)
Cyng Dyfrig Jones (CG)
Cyng John Brynmor Hughes (CG)
Cyng Jeff Evans (CSYM)
Jim Woodcock - Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd (CSYM)

**1) YMDDIHEURIADAU**
Fel y nodwyd uchod.

**2) DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

**3) MATERION BRYS**
Ni chyflwynwyd unrhyw faterion brys.

**4) COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Panel 7fed Mawrth 2014 fel rhai cywir.

**5) CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:
YR AMSERLEN, RHAGLEN WAITH Y PANEL A THREFNIADAU YMGYSYLLTU**

Cyflwynwyd adroddiad gan Nia Davies yn esbonio'r amserlen o fewn y Cytundeb Cyflawni (CC) ar gyfer darparu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl ar y Cyd) ac yr angen i gadw golwg ar yr amserlen. Mae'n rhaid cadw'r CC yn gyfredol, ond mae ymholiadau'r cael ei wneud gyda Llywodraeth Cymru am ymarferoldeb ail-gytuno'r CC oherwydd y raddfa o'r llithrad. Cafwyd amlinelliad o'r rhesymau dros llithrad yn yr amserlen, yn ogystal a chodi ymwybyddiaeth o gwaith yr Uned ac trefniadau ar gyfer cyflwyno polisïau manwl i'r Panel. Esboniwyd cyd-destun y Cynllun Adnau a'r amserlen ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adnau.

Pwyntiau a godwyd:

- Codwyd pwynt fod rhanddeilwyr yn methu targedi i gyflwyno gwybodaeth, ydi hyn yn cyfrannu at y llithrad.
- Gofynnwyd am safiad Llywodraeth Cymru ar y llithrad.
- Nodwyd fod dyddiad terfynol yn agos iawn i'r etholiadau
- Gofynnwyd am eglurhad am cynhwysiad Seminarau Tai sydd yn cael eu cynnal.
- Codwyd y pwynt fod hi'n holl bwysig i Cynghorau Cymuned / Dinas a Threfi i gael cyfleon i drafod cynigion gan gynnwys safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Holwyd am y posibilrwydd i greu mapiau a fuasai'n rhoi llun cyflawn o'u hardaloedd
- Gofynnwyd os ellir sicrhau bod gohebiaeth am wybodaeth ynglŷn a'r CDLl ar y Cyd yn mynd allan i'r Aelodau hefyd, gan nad ydy ambell Aelod yn perthyn i'r Cyngor Cymuned, a bod sylw'r clerc yn cael ei dynnu i bwysigrwydd y deunydd
- Gofynnwyd am dyddiad Seminar Sipsiwn a Theithwyr.

Ymatebion:

- Esboniwyd fod rhanddeilwyr yn debygol o fod o dan bwysau eu hunain, e.e. ail drefniant Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Ynglŷn â safiad Llywodraeth Cymru ar y llithrad, esboniwyd er fod swyddogion yn siomedig fod yna lithrad, maent yn gweld cynnydd yn y Cynllun ac mae hyn i'w groesawu.

- Esboniwyd bod gohebiaeth newydd gael ei yrru yn rhoi cyd-destun Seminarau Tai.
- Cytunwyd y dylid rhannu gwybodaeth am gyfleon datblygu gyda'r Cynghorau Cymuned
- Cytunwyd gyda'r awgrym ynglŷn a'r angen i sicrhau bod Aelodau'n cael yr un wybodaeth a Chynghorau Cymuned a'r angen i bwysleisio pwysigrwydd y pwnc â sonnir mewn gohebiaeth.
- Gobeithio cynnal seminar Sipsiwn a Theithwyr yn mis Mehefin, ond hyd yma rydym yn disgwyl dyddiad gan gynrychiolydd o Llywodraeth Cymru i fynychu.

## 6 STRATEGAETH TŴF TAI'R HOFF STRATEGAETH: CASGLIADAU'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

Cyflwynwyd adroddiad a baratowyd yn codi ymwybyddiaeth y Panel o sylwadau a dderbyniwyd ar Strategaeth Tŵf Tai'r Hoff Strategaeth. Tynnwyd sylw'r Panel tuag at sylwadau Llywodraeth Cymru, sef, nid ydynt yn gyfforddus gyda'r ffigwr tŵf yn yr Hoff Strategaeth ac mai man cychwyn ydi rhagolygon aelwydydd cenedlaethol. Ers i'r ffigwr gael ei gyhoeddi yn yr Hoff Strategaeth mae Rhagolygon Sail 2011 wedi eu cyhoeddi. Felly cymharwyd casgliadau sail 2011 gyda'r rhai blaenorol (sail 2008).

Mae Atodiad 1) yn rhestru'r sylwadau a dderbyniwyd - nid oedd pawb yn gytun ond mwyafrif yn cefnogi lefel tŵf uwch nag sy'n cael ei gynnwys yn yr Hoff Strategaeth. Mae Atodiad 2) yn dangos cymhariaeth rhwng niferoedd tai yn ôl gwahanol ragamcanion. Ffigyrau 2011 dangos gostyngiad mewn niferoedd unedau tai o'i gymharu a ffigyrau 2008.

Pwyntiau a godwyd:

- Dangosodd y Cyfrifiad diwethaf fod yna ddirywiad mawr yn nifer o siaradwyr Cymraeg. Oes cyd-berthnas rhwng niferoedd tai a'r effaith ar yr iaith Gymraeg?
- Fel mae'r sefyllfa yn gwella o ran yr amgylchiadau economaidd, sef dod allan o'r dirwasgiad – oes modd i ffurfio polisi i ymdopi gyda'r gwellhad? Angen edrych i'r dyfodol yn hytrach i'r gorffennol.
- Cyfeiriwyd at wahanol resymau dros fudo.
- Angen gwella argaeledd morgeisi – ond mae cwmnïoedd morgeisi yn fwy llyfn nag yn y blynyddoedd diwethaf.
- Cyfeiriwyd at yr angen i edrych ar hyrwyddo gwahanol fath o dai . Sut mae'r CDLl ar y Cyd yn mynd i ddelio gyda Tai Fforddiadwy a'r ardaloedd mewn angen? Oes gennym ddylanwad ar ddatblygwyr i ddarparu'r math o dai sydd angen?
- Pwysigrwydd o gael isadeiledd mewn lle cyn i ddatblygiad ddechrau.

Ymatebion:

- Esboniwyd nad yw Rhagolygon yn declyn polisi, mai edrych ar enedigaethau, marwolaethau, a mudo maent yn eu wneud. Mae Awdurdodau yn arholi ffeithiau amgylcheddol lleol a chymunedol, gan gynnwys yr iaith. Mae Astudiaeth wedi cael ei wneud i hel gwybodaeth am y berthynas rhwng tai a'r iaith Gymraeg. Mi fydd yna ddogfen cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi diwedd mis Mai / Mehefin.
- Mae angen parhau i gasglu tystiolaeth drwy cyfnod paratoi'r cynllun.
- Bydd y Cynllun yn cynnwys polisïau i hyrwyddo gwahanol fathau o dai i gyd- fynd a'u lleoliad, gan gynnwys tai fforddiadwy a thai marchnad lleol.
- Cytuno bod angen i'r Cynllun fod ddigon hyblyg i allu ymdopi gydag amgylchiadau economaidd gwell y dyfodol.
- Ar hyn o bryd mae angen i ddatblygwyr gyflwyno tystiolaeth a manylion fel rhan o gais cynllunio sydd yn cael ei asesu i benderfynu ynglŷn a gosod amodau a'r angen i greu Cyt 106.
- Esboniwyd fod Dŵr Cymru yn un o'r darparwyr isadeiledd sydd yn cyfrannu at yr wybodaeth am safleoedd ar hyn o bryd.